

Pennod 9

Ymarfer, darpariaeth a mythau

Cyfraniad merched i addysg blynyddoedd cynnar

Siân Wyn Siencyn

Gellir dadlau mai maes dynion yw seicoleg gyfoes. Bu dylanwad a chyfraniad y cewri megis Piaget, Vygotsky, Bruner, ac yn y blaen mor gryf nes bod perygl i ni anghofio am gyfraniad allweddol menywod i'r maes. Efallai bod gan y menywod fwy o ddiddordeb mewn realiti bydoedd plant a'r ffordd orau o ddarparu ar gyfer plant nag mewn ymchwil a damcaniaethau. Wrth gwrs, ceir eithriadau disglair a bydd y bennod hon yn cyfeirio atyn nhw.

Byddai modd honni bod cyfraniad dynion mor amlwg gan mai nhw a luniodd y maes yn y lle cyntaf. Pa ddisgwyl i ferched eu hamlygu eu hunain mewn meysydd lle nad oedd ganddyn nhw unrhyw rym ac mewn cyfnod lle nad oedd ganddyn nhw ychwaith gyfleoedd i gynnal gyrfa? Er i wraig Piaget hithau fod yn allweddol yn ei waith ac yn un o'i fyfyrwyr mwyaf disglair yn ei hamser, hi oedd gartref yn magu'r plant y bu Piaget mor brysur yn eu hastudio. Mae'r feirniadaeth ffeministaidd o ymlyniad maes astudiaethau plant ifainc i fframweithiau a gwerthoedd a osodwyd gan ddynion yn un ddigon heriol a diddorol. Gwelir, er enghraifft, MacNaughton (2004) yn ei gwaith hi'n dadlau o blaid y farn arall, yr olwg amgen ar y maes a hynny o dan ddylanwad Foucault ac athronwyr ôl-strwythurol (*poststructuralist*) eraill. Sut mae modd, meddai Macnaughton, i ni gymeradwyo uniongredd patriarchaidd Piaget a'i linach pan fo merched mor allweddol ym mywydau plant ifainc? Pen draw naturiol y fframwaith ôl-strwythurol hwn yw awgrymu mai safbwynt benywaidd yw'r unig un dilys. Merched sy'n cario babanod cyn eu geni, merched sy'n esgor arnyn nhw, merched sy'n eu bwydo. Merched, yn draddodiadol, sy'n gweithredu fel bydwagedd, nyrsys, ymwelyddion iechyd, gweithwyr mewn meithrinfeydd ac ysgolion meithrin. Mae merched yn holl bresennol ym mywydau plant bach. Felly dylid gweld eu cyfraniad i athroniaeth ac ymarfer addysg blynyddoedd cynnar lawn cyn bwysiced, os nad yn fwy pwysig, na chyfraniad seicolegwyr o ddynion - a'r rheini, fel y byddai MacNaughton a'i chwiorydd yn awgrymu, yn ddynion gwyn Ewropeaidd a golwg go gyfyng ar y byd. Mae'r athroniaeth hon yn un heriol, astrus, a chwbl angenrheidiol er mwyn cynnal y drafodaeth ymhellach.

Roedd **Maria Montessori (1870 - 1952)** yn fenyw o flaen ei hamser mewn sawl ffordd. Fe'i ganed yn unig blentyn i deulu cyfforddus ei fyd yn yr Eidal a chafodd addysg dda, peth digon anghyffredin i ferched yr adeg honno. Astudiodd feddygaeth a hi, yn wir, oedd meddyg benywaidd cyntaf yr Eidal. Wedi arbenigo mewn paediatreg, datblygodd diddordeb mawr Maria Montessori mewn plant anghenus, plant roedd eraill yn credu nad oedd modd dysgu unrhyw beth iddyn nhw. Wrth arsylwi'n ofalus ar ymateb y plant i'w dulliau hi, datblygodd ei diddordeb yn y potensial i ddysgu a oedd yn y plant ifainc yma - plant tlawd iawn ac amddifad o gyfleoedd addysg. Daeth Montessori i'r casgliad nad problemau cynhenid yn y plant a oedd yn eu hatal rhag dysgu ond, yn hytrach, dulliau addysgu anaddas yr oedolion.

Sefydlodd Montessori gartref i blant, yr enwog Casa dei Bambini, mewn ardal ddifreintiedig iawn o Rufain. Sylwodd Montessori ar y newid mawr yn y plant pan gawson nhw wrthrychau i chwarae â nhw. Roedd y plant yn dangos diddordeb, yn chwilfrydig, ac yn ymddangos fel petaen nhw'n dysgu. Yn lle plant diflas a mewnblyg, gwelwyd plant effro a mwy bywiog a hynny'n unig am eu bod yn cael offer a theganau syml i chwarae â nhw. Bu dulliau Montessori yn llwyddiannus iawn a lledaenodd ei syniadau dros y byd. Cyhoeddwyd ei llyfr arloesol *The Montessori Method* yn Saesneg ym 1912 a bu gwerthu mawr ar y gyfrol. Daeth i Lundain ym 1919 a chafodd groeso brwd a thyrfaoedd yn aros amdani ym mhob man.

Pwysleisiodd Maria Montessori bwysigrwydd arsylwi a datblygodd dull o weithio gyda phlant ifainc yn seiliedig ar ei gwaith gyda phlant â'r hyn a fyddai bellach yn cael ei alw'n anghenion addysgol arbennig neu anghenion addysgol ychwanegol. Datblygodd amrywiaeth o adnoddau a oedd yn cefnogi dysgu plant drwy gyfrwng gweithgareddau wedi eu graddoli a'u strwythuro'n ofalus.

Swyddogaeth yr addysgwr yn nhraddodiad Montessori yw arwain dysgu'r plentyn yn hytrach na'i gyfeirio, a phwysleisir pwysigrwydd trefn arferol a defnyddio'r synhwyrau. Gellir gweld dylanwad dull Montessori ar ffurf yr adnoddau maint plentyn (cadeiriau a byrddau bychain er enghraifft) a'r gweithgareddau gwahaniaethol a ddefnyddir ym mhob ysgol, nid yn unig yn yr Ysgolion Montessori penodol (sy'n boblogaidd iawn yn y sector preifat).

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau

Credai Montessori fod ei dulliau hi o addysgu plant ifainc wedi eu sylfaenu ar arsylwadau gwyddonol. Iddi hi, roedd amgylchedd y dysgu'n bwysig tu hwnt. Credai hefyd mewn trefn a thaclusrwydd gan fynnu, yr un pryd, bod deunyddiau ac offer ar gael yn rhwydd i blant. Drwy sicrhau amgylchedd deniadol a chymen, byddai plant, meddai, yn dod i werthfawrogi'r esthetig a'r trefnus fel elfennau allweddol i fywyd da. Drwy'r synhwyrau, meddai, y mae plant yn dysgu orau. Rhaid felly wrth amgylchedd sy'n llawn seiniau a sain, arogleuon, deunyddiau o ansawdd amrywiol, pethau i edrych, arsylwi a syllu arnyn nhw – a'r rheini i gyd, yn eu hanfod, yn brydferth a difyr.

Un agwedd arall arwyddocaol ar ei hathroniaeth oedd pwysigrwydd annibyniaeth plant. Po fwyaf fydd oedolion yn ymyrryd yng ngweithgaredd plant, arafaf fydd dysgu'r plant. Mae gan blant, meddai, ddiddordeb angerddol mewn gwaith go iawn. A byddai unrhyw un sydd wedi bod yng nghwmni plant bach wrth iddyn nhw fynd ynglŷn â bywyd bob dydd - yn golchi car, yn paratoi llysiau, yn newid plwg trydan, yn garddio - yn gwybod ei bod hi'n well gan blentyn bach 'helpu' gyda'r dasg na chwarae â theganau.

....nid yr hyn mae'r athro yn ei roi yw addysg; proses naturiol yw addysg sy'n cael ei chynnal gan yr unigolyn, a chaiff ei chaffael nid drwy wrando ar eiriau ond drwy brofiadau yn yr amgylchedd. Gwaith yr athro yw paratoi cyfres o gymhelliannau diwylliannol, wedi eu hymestyn dros amgylchedd sydd wedi ei baratoi'n benodol, ac yna ymatal rhag ymyrraeth amlwg. Ni all athrawon dynol ond cynorthwyo yn y gwaith mawr sy'n digwydd, megis gweision yn cynorthwyo'r meistr.

..... *education is not what the teacher gives; education is a natural process spontaneously carried out by the human individual, and is acquired not by listening to words but by experiences upon the environment. The task of the teacher becomes that of preparing a series of motives of cultural activity, spread over a specially prepared environment, and then refraining from obtrusive interference. Human teachers can only help the great work that is being done, as servants help the master.*

(O Maria Montessori, *Education for a New World*:
<http://www.montessori.edu/maria.html>)

Cafodd Montessori ddylanwad mawr ar ymarfer blynyddoedd cynnar ac ar sut roedd y dosbarth meithrin yn edrych. Pan agorodd ei hysgol gyntaf ym 1907, roedd ei syniadau yn rhai radical iawn. Hi, er enghraifft, oedd yn gyfrifol am drefnu plant mewn grwpiau ar fyrddau bychain yn hytrach na mewn rhesi. Nid oedd celfi maint plant yn gyffredin, arferai plant eistedd ar feinciau neu gadeiriau maint oedolion. Erbyn hyn, wrth gwrs,

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau

mae'n arferol gweld darpariaeth blynyddoedd cynnar gyda deunyddiau megis offer llaw, llestri, cylllyll a ffyrac ac yn y blaen wedi'u cynhyrchu'n benodol i blant. Montessori oedd yn gyfrifol am y weledigaeth honno. At hynny, roedd Montessori o'r farn ei bod yn bwysig iawn fod yr offer, megis morthwylion, llifiau, a sisyrnau yn rhai a oedd yn gweithio go iawn. Ni fyddai wedi cymeradwyo'r holl offer a theganau plastig sy'n britho dosbarthiadau meithrin a siopau teganau erbyn hyn.

Y feirniadaeth lemaf ar athroniaeth addysgol Montessori oedd ei phwyslais ar rôl yr oedolyn wrth lywio a strwythuro chwarae plant. Nid oedd, fel Froebel o'i blaen, yn credu bod gan chwarae ffantasi a chwarae dychmygus swyddogaeth bwysig yn natblygiad y plentyn ifanc (Kalliala, 2006: 137).

Parhawyd â'r cysylltiad rhwng sosialaeth, addysg a gofal yng ngwaith y chwiorydd McMillan. Datblygodd **Margaret McMillan (1860-1931)** a'i chwaer **Rachel McMillan (1859-1917)** syniadau Froebel a Pestalozzi am addysg amgylcheddol a chychwyn y 'feithrinfa tu allan' sydd gymaint mewn bri heddiw. Roeddynt ill dwy'n wleidyddol iawn ac yn perthyn i nifer o fudiadau a oedd yn hybu eu hegwyddorion Cristnogol Sosialaidd – yn wir buon nhw'n cyfrannu'n gyson i gylchgrawn radicalaidd y cyfnod o'r enw'r *Christian Socialist*. Safodd Margaret fel ymgeisydd y Blaid Lafur Annibynnol (*Independent Labour Party* neu'r ILP) ar gyfer Bwrdd Addysg Bradford a chafodd ei hethol i'r Bwrdd ym 1894. Ysgrifennodd nifer o lyfrau a thafleuni yn ystod y cyfnod yma yn cynnwys *Child Labour and the Half Time System* (1896) ac *Early Childhood* (1900).

(<http://www.electricscotland.com/history/women/wh31.htm>)

Roedd y berthynas rhwng addysg ac iechyd yn gonglfaen i athroniaeth y chwiorydd McMillan. Buon nhw'n brwydro am glinigau iechyd, ysgolion ag awyru da gan gydnabod bod angen i blant fod yn hapus, iach a chysurus er mwyn dysgu.

Wrth gynllunio ei hysgol feithrin gyntaf ym 1917 roedd Margaret McMillan yn ymwrthod â chynlluniau a phensaernïaeth ysgolion y cyfnod. Roedd ganddi, yn hytrach, ddiddordeb mewn defnyddio gofod mewn ffordd fwy creadigol a mwy cartrefol - cafwyd cynllun a oedd yn golygu bod drysau'r dosbarthiadau i gyd yn agor ar yr ardd. Mae MacNaughton (2006: 108) yn amlinellu syniadau pwysig y chwiorydd McMillan fel hyn:

- Mae lles emosiynol y plentyn cyn bwysiced â lles corfforol.
- Mae'n bwysig iawn cynnwys rhieni yn narpariaeth addysg a gofal eu plant.

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau

- Mae profiadau yn yr awyr agored gyda deunyddiau penagored (*open-ended*) yn hyrwyddo datblygiad iach y plentyn bach.
- Caiff datblygiad plant ei hybu pan fyddant yn cael eu hannog i'w mynegi eu hunain drwy gelf.

Tra oedd Margaret McMillan yn gweithredu yn ôl credoau gwleidyddol a chymdeithasol cryf, ysgrifennu ac ymgyrchu a wnaeth **Susan Isaacs (1885-1948)**. Enillodd radd mewn athroniaeth o Brifysgol Manceinion ym 1912 ac wedi cyfnod yn darlithio, fe'i penodwyd yn bennaeth ysgol Malting House yng Nghaergrawnt. Roedd Malting House yn ysgol arbrolfod iawn ac, o dan ei harweiniad hi, daeth chwarae a rôl chwarae yn y broses dysgu yn ganolog i'r gwaith yno. Hyfforddodd Isaacs fel seicdreiddydd (*psychoanalyst*), maes newydd yr adeg honno oedd yn drwm o dan ddylanwad dysgeidiaeth Freud. Ym 1933 daeth yn bennaeth cyntaf ar Adran Datblygiad Plant, Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain gan sefydlu datblygiad plant yn faes allweddol yn y cyrsiau hyfforddi athrawon.

Yn y Maltings School, roedd Isaacs yn arsylwi'n ofalus ac yn fanwl iawn ar ymddygiad plant, ar eu chwarae ac ar eu sgwrsio. Cadwodd gofnodion gofalus iawn. Ond mae Drummond yn awgrymu nad yr arsylwadau manwl yn unig sydd o ddiddordeb ac sydd wedi bod mor ddylanwadol ond yn hytrach y sylwebaeth seicdreiddiol sy'n cyd-fynd â'r arsylwadau hynny (Drummond, 2000).

Dylanwad Susan Isaacs ar *Y Cyfnod Sylfaen 3 – 7 oed* yng Nghymru

Heddiw mae'r ysgol yn lladd diddordeb plant yn fwriadol...ac mae'n addoli'r dulliau ffurfiol o ddysgu...Mae anghyfartaledd mawr rhwng yr amser a'r drafferth a roddir i ddysgu plant i ddarllen ac i ysgrifennu'n rhy gynnar a'n pryder am ddefnyddio'r pethau hyn go iawn i wasanaethu bywyd personol a chymdeithasol.

Today the school deliberately deadens [children's] interest...and idolatorises the formal tools of learning...There is an extraordinary disproportion between the time and trouble put into teaching children to read and write at far too early an age and our concern with the real use of these things to serve personal and social life'

(Isaacs yn Gardener, 1969: 66)

O'i chyfnod yn y Maltings School, datblygodd diddordeb Isaacs ym mywyd mewnol y plentyn bach - sut bydd plant ifainc yn ymdrin ag ymddygiad ymosodol. Daeth hi i gredu bod gan blant ifainc ystod o emosiynau grymus a chymhleth, er enghraifft: cariad a chasineb, ymdeimlad o rym a diffyg grym, ennill a cholli. Rhoddai Isaacs werth ar chwarae fel gwaith plant a phwysleisiodd ei bwysigrwydd wrth ddarparu cyfrwng y gallai plant eu mynegi eu hunain drwyddo. Byddai plant, meddai, yn eu chwarae, yn dysgu i fyw yn y byd allanol ac yn eu byd mewnol, fel petaent yn addasu realiti yn eu ffantasi.

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau

Gwelai Isaacs chwarae dychmygus yn bont rhwng y byd mewnol a'r byd allanol. Yn ei chwarae, bydd y plentyn yn datblygu ymdeimlad am realiti'r byd, ei reolau gwyddonol, a datblygiad rheswm.

Dechreuodd hi amau rhagdybiaethau a damcaniaethau Piaget. Gwelodd fod rhai plant yn symud yn gyflym iawn drwy rai o'r camau deallusol roedd Piaget wedi eu hamlinellu ac yn gynt o lawer nag yr oedd ef wedi credu oedd yn bosibl. Daeth ei gwaith mawr hi, sef *Intellectual Growth in Young Children* (1930) and *Social Development of Young Children* (1933) o ganlyniad i'w chyfnod yn y Maltings.

Susan Isaacs

Susan Isaacs oedd y seithfed o naw o blant. Bu farw ei brawd pan oedd hi yn 7 mis oed. Pan oedd Isaacs yn 4 oed trawyd ei mam yn wael a bu farw ddwy flynedd yn ddiweddarach. Soniodd Isaacs wrth Dorothy Gardener, myfyriwr iddi a'i chofiannydd, am y tro olaf iddi weld ei mam. A hithau ond yn blentyn bychan iawn, dywedodd wrth ei mam, a oedd yn wael iawn, gyda diniweidrwydd plentyn, bod ei thad a nyrs ei mam yn agos iawn. Roedd ei mam, yn ddigon naturiol, yn anhapus iawn o glywed hyn ac aethpwyd â'r Susan ifanc allan o'r ystafell. Welodd hi erioed mo'i mam eto. Ymhen amser, priododd tad Susan â'r nyrs. Perthynas bur anodd oedd rhwng Susan, ei thad a'i llysfam.

Ai dyma, tybed, pam roedd gan Susan Isaacs gymaint o ddiddordeb mewn damcaniaethau seico-dadansoddol?

Er nad yw **Caroline Pratt** yn enw cyfarwydd iawn erbyn hyn, mae ei dylanwad yn bellgyrhaeddol. Yn athrawes ifanc yn Efrog Newydd ym 1914, roedd hi'n rhwystredig iawn gyda'r drefn addysgol a oedd, yn ei thyb hi, yn llawer rhy ffurfiol a gormesol. Roedd hi am ddatblygu chwarae penagored gan ei bod yn credu bod rhinweddau addysgol arbennig yn perthyn i'r math yma o chwarae. Dan ddylanwad syniadau Froebel, penderfynodd Caroline Pratt sefydlu ysgol er mwyn ymestyn ei syniadau a dyna gychwyn y City and County School ar gyfer plant 2 - 7 oed yn Greenwich Village, Efrog Newydd. Ei chyfraniad mwyaf dylanwadol oedd ei chynllun ar gyfer blociau pren uned (*unit blocks*). Erbyn hyn mae chwarae blociau'n gyffredin ac i Caroline Pratt y mae'r diolch am hyn. Hi welodd eu pwysigrwydd o safbwynt y posibiladau dysgu diddiwedd a ddaw o'r math yma o chwarae. Un o rinweddau mawr chwarae blociau yw nad oes modd methu. Nid oes ffordd gywir nac anghywir ac mae'r posibiladau'n ddiddiwedd. Mae'n arwain pob plentyn, yn y pendraw, i lwyddiant.

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau

Anna Freud (1896-1982) oedd plentyn ieuengaf Sigmund a Martha Freud. Roedd ei thad yn ddylanwad mawr ar ei ferch ac yntau'n sylfaenydd seicdreiddiad neu seicoddadansoddi (*psychoanalysis*). Diddordeb mawr Anna Freud oedd dadansoddi plant a sefydlodd ei phraxis ei hun ym 1923 yn Fiena. Symudodd Anna Freud gyda'i thad, a oedd erbyn hyn yn wael iawn (bu farw ym 1939), i Lundain ym 1938 er mwyn dianc rhag y Natsïaid. Yn Llundain, sefydlodd Anna Freud braxis newydd a bu'n darlithio ar seicoleg plant. Aeth ymlaen i sefydlu'r Hampstead War Nurseries yn ystod y 1940au cynnar a oedd yn gofalu am dros 80 o blant. Ar ôl y rhyfel, daeth grŵp o blant amddifad o un o wersylloedd erchyll y Natsïaid i ofal un o gartrefi Anna Freud. Cafwyd cyfle, yr adeg honno, i astudio'r ffordd yr oedd y plant hyn yn sefydlu perthynas ag eraill ac ysgrifennodd Anna Freud am ei harsylwadau a'i gwaith dadansoddol. Datblygodd ei dylanwad yn dilyn sefydlu'r Hampstead Child Therapy clinic ym 1954 a'r cyrsiau a oedd ynghlwm wrth y ganolfan. Erbyn hynny, hi oedd yn gyfrifol am hyfforddi'r rhan fwyaf o seicotherapyddion plant yn Lloegr ac yn yr Unol Daleithiau. Roedd ganddi ddiddordeb arbennig mewn gweithio gyda phlant a oedd wedi eu hamddifadu o swcwr emosiynol a phlant a oedd dan anfantais gymdeithasol. Bu'n ddylanwad mawr ar John Bowlby a oedd wedi datblygu damcaniaethau allweddol yn ymwneud ag ymlyniad (*attachment theory*) a phwysigrwyd bondio emosiynol rhwng mam a'i baban.

www.freud.org.uk/fmanna.htm>)

Daeth Anna Freud o dan ddylanwad **Melanie Klein (1882 - 1960)**, hithau wedi ymsefydlu yn Llundain ym 1926. Mae Klein yn enwog am ei gwaith arloesol fel seicdreiddydd plant a oedd yn cynnig golwg newydd ar fywyd emosiynol a mewdol plant ifainc a babanod. Datblygodd ei syniadau i greu maes newydd o seicotherapi fel dull o hyrwyddo iechyd meddwl plant ifainc, yn enwedig plant a oedd wedi dioddef trawma. Rhan bwysig o'i gwaith oedd y defnydd o deganau a deunyddiau (doliau, anifeiliaid bach, clai, pensiliau ac yn y blaen). Wrth wyllo plant a oedd yn cael trafferthion mawr yn eu bywydau wrthi'n chwarae, byddai Klein yn dehongli'r chwarae ac yn dadansoddi anghenion y plant. Daeth hi i gredu bod rhieni, neu gynrychioliadau o rieni (*parental figures*) yn arwyddocaol ym mywydau ffantasïol plant ifainc. Gwelir dylanwad Melanie Klein heddiw ym maes therapi chwarae a therapïau tebyg sy'n cynorthwyo plant ifainc i wynebu profiadau anodd a thrawmatig.

Er iddyn nhw weithio yn yr un maes, roedd cryn anghytuno rhwng Anna Freud a Melanie Klein yn bennaf ar faterion cymhleth iawn yn ymwneud â chysyniadau astrus damcaniaethau seicdreiddiol. Dadleuon sy'n anodd iawn i'r lleygwr eu hamgyffred!

Albanes yw **Margaret Donaldson (1926 -)** ac mae ei gwaith hi fel seicolegydd wedi herio damcaniaethau Jean Piaget. Bu Donaldson yn fyfyrwr ymchwil gyda Piaget yn y Swistir a bu'n astudio hefyd gyda Jerome Bruner ym Mhrifysgol Harvard. Roedd ganddi ddiddordeb yn y casgliadau y daw plant iddyn nhw ac yn arbennig felly gasgliadau plant ynghylch eu gwerth eu hunain a'u canfyddiadau ynghylch eu sgiliau a'u galluoedd. Dywed David (2006) fel hyn amdani:

Awgrymodd Donaldson mai'r gweithgareddau yn yr ysgol sy'n achosi plant i fethu'n 'anafus' yw'r rhai sy'n graidd i'r cwricwlwm traddodiadol – llythrennedd a rhifedd.

Donaldson suggested that the school activities which can cause children to fail 'woundingly' are those that form the core of the traditional curriculum – literacy and numeracy.

(David, 2006:12)

Damcaniaeth Donaldson yw'r cysyniad o feddwl sefydlog (*embedded*) a dadsefydlog (*disembedded*). Sail y cysyniad hwn yw dealltwriaeth o ddamcaniaethau Piaget am egoganolrwydd (*egocentrism*) plant ifainc, sef anallu'r plentyn ifanc, yn ôl Piaget, i weld y byd o safbwynt rhywun arall. Yn ei llyfr dylanwadol *Children's Minds*, mae Donaldson yn cynnig gwrthbwynt i arbrof enwog Piaget, y tri mynydd, a oedd, yn ôl Piaget, yn profi nad oedd modd i'r plentyn bach weld safbwynt gwahanol i'w safbwynt ei hun. Yn nhasg Donaldson, mae tair dol - dau blismon ac un bachgen bach – yn lle tri mynydd. Gofynnir i'r plentyn guddio'r bachgen bach y tu mewn i gyfres o waliau fel nad yw'n bosibl i'r plismyn ei weld. Er mwyn cyflawni'r dasg, mae'n rhaid i'r plentyn anwybyddu ei safbwynt ei hun, yr hyn y mae ef yn ei weld, a chymryd golwg ehangach ar wahanol safbwyntiau'r plismyn esgus. Darganfu fod plant mor ifanc â thair a phedair blwydd oed yn medru cyflawni'r dasg heb fawr o drafferth. Dyma, meddai Donaldson, yw'r gwahaniaeth rhwng meddwl sefydlog a meddwl dadsefydlog. Yn nhasg y plismyn, mae bwriad a chymhelliant yn amlwg a gellir eu deall. Mae'r dasg wedi ei sefydlu mewn cyd-destun rhesymegol. Ar y llaw arall, nid yw tasg y tri mynydd wedi ei sefydlu mewn rhesymeg na chyd-destun ac mae felly'n ddad-sefydlog. Nid yw'n syndod felly fod plant ifainc yn methu ei chyflawni.

Y gwahaniaeth hwn rhwng meddwl sefydlog a dad-sefydlog yw, efallai, y syniad mwyaf pwysig yn *Children's Minds*. Mae hefyd yn wahaniaeth

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau
sydd o bwysigrwydd allweddol er mwyn deall pam mae cymaint o blant
yn cael anawsterau yn yr ysgol.

This distinction between embedded and disembedded thinking is perhaps the single most important idea in 'Children's Minds'. It is also a distinction which is of crucial importance in understanding why so many children have difficulty in school.

(Palmer 2001:177)

Ymchwilydd dyfeisgar a dylanwadol yw **Chris Athey (1924 -)**. Ei gwaith mawr yw ei hastudiaeth ddadansoddol fanwl o 5000 o arsylwadau a wnaed ganddi ar blant ifainc 2 - 5 oed. Mae ei llyfr *Extending Thought in Young Children: A parent-teacher partnership* (1990) eisoes wedi ennill ei le fel tipyn o glasur. Dangosodd Athey fod plant ifainc iawn yn medru canolbwyntio am gyfnodau hirion ac nad ydyn nhw yn gwibio o un gweithgaredd i'r llall yn ddifeddwl. Datblygodd cysyniad Piaget o sgemau (*schemas*) i esbonio ymddygiad a chwarae plant ifainc. Patrymau ymddygiad yw sgemâu sy'n ymddangos yn gyson yn rhan o chwarae plant ifainc.

Patrymau o weithrediadau sy'n cael eu hailadrodd yw sgemâu sy'n arwain at gategorïau cynnar ac yna at ddsbarthiadau rhesymegol.

Schemas are patterns of repeatable actions that lead to early categories and then logical classifications.

(Athey, 1990: 36)

Dywed Arnold fod plant ifainc yn defnyddio'r gweithrediadau ailadroddus hyn er mwyn chwilio am debygolrwydd (*to search for commonalities*) (Arnold, 2005:25). Aiff Arnold ymlaen:

...bydd diddordeb mewn 'dannedd cam', 'grisiau', a'r llythyren 'W' yn dangos bod gan y plentyn ddiddordeb mewn ffurfiau igam-ogam, efallai eu bod yn cael eu denu at 'stegosaurus', 'coron brenin', a 'llif'. Mae adnabod hyn yn cynnig cliwiau i rieni a gweithwyr ynghylch sut i ymestyn dysgu'r plentyn drwy'r 'ffurf' yn ogystal â thrwy'r 'cynnwys'.

...an interest in 'jagged teeth', 'stairs', and the letter 'W' demonstrates a child's interest in the zig-zag form; they might also be drawn to 'stegosaurus', 'a king's crown', and 'a saw'. Identifying this provides clues for parents and workers about how to extend their learning through the 'form' as well as the 'content'.

(Arnold, 2005:25)

Engreifftiau o rhai mathau o sgemau

Sgemau	Mathau posibl o ymddygiad	Teganau, adnoddau
Cludo (<i>Transporting</i>)	Cario blociau o un lle i'r llall mewn bag, cludo tywod mewn bwced o'r cafn tywod i'r tŷ bach twt, gwthio plentyn arall mewn pram	Bagiau siopau Bygis Troliau
Amgylchynu (<i>Enveloping</i>)	Cuddio o dan garthen neu glwtyn ymolchi tra bydd yn y bath, gorchuddio doliau a theganau mewn carthenni, gorchuddio paentiad ag un lliw	Deniau Unrhyw beth mewn bocs Amlenni Gwisgo i fyny Rapio 'anrhegion'
Tafl-lwybr <i>Lletrows/ Fertigol</i> <i>Gorweddol</i> (<i>Trajectory;</i> <i>Diagonal/</i> <i>Vertical/Horizontal</i>)	Gollwng pethau o'r cot, creu llinellau neu fwâu (arcs) â'r dwylo mewn bwyd, chwarae â dŵr sy'n llifo, dringo i fyny ac i lawr celfi, gosod ceir bach mewn llinell, cicio a thafu peli.	Gemau taflu Gwaith coed Pêl droed Dŵr sy'n llifo Offeryn taro (<i>percussion</i>)
Cylchdroad (<i>Rotation</i>)	Diddordeb mewn peiriannau golchi, unrhyw beth ag olwynion, rollo i lawr bryn, troelli a chwyrlio, mwynhau cael ei droi o gwmpas.	Gemau cylch Olwynion Cylchfannau Topiau sy'n chwyrlio Caleidoscopiau
Cysylltiad (<i>Connection</i>)	Dosbarthu a chasglu gwrthrychau, cysylltu traciau trên, ymestyn tâp neu selotep (er enghraifft i gysylltu cadair wrth fwrdd)	Traciau trên Adeiladu Llinyn Selotep
Trawsnewid (<i>Transforming</i>)	Ychwanegu sudd at y tato stwnsh, tywod i'r cafn dwr, mwynhau ychwanegu lliw at ddŵr neu wneud toes.	Cymysgu paent Creu toes

Mae cofnod diddorol iawn o waith Meade a'i chyd-ymchwilwyr o Seland Newydd ar broject Plant Hyfedrus (Competent Children) sy'n amlinellid ardderchog o oedolion yn dysgu drwy arsylwi ar sgemâu plant ifainc ar <http://www.nzcer.org.nz/pdfs/1363.pdf>

Dengys gwaith Athey bwysigrwydd arsylwadau manwl a gofalus ar ymddygiad a chwarae plant ifainc. Rhaid wrth wybodaeth gadarn am ymchwil a damcaniaeth er mwyn dehongli'r hyn y byddwn yn ei arsylwi arno ac wedyn rhaid wrth ddyfeisgarwch deallusol er mwyn gweld rheswm a rhesymeg yn y chwarae.

Mae **Lilian Katz (1932 -)** wedi cyfrannu'n helaeth at addysg blynyddoedd cynnar dros ddegawdau fel academydd yn yr Unol Daleithiau, er mae yn Lloegr y'i ganed a'i maged.

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau

Maes arbennig ei diddordeb yw hyfforddiant athrawon a gweithwyr blynyddoedd cynnar ac mae ei chyfrrol *Engaging Children's Minds: The Project Approach* (1983) yn parhau yn ddylanwadol. Sail y syniadau hyn yw gwerth prosiectau, a rheini'n ymwneud ag astudiaethau o faterion bob-dydd, fel sail i ddatblygiad cymdeithasol plant ifainc. Drwy sgwrsio am eu cymunedau - stadau tai, heolydd, parciau, coed, tai, ceir, anifeiliaid, pobl - bydd plant yn dod i ddealltwriaeth ddyfnach o'i byd. Mae Katz hefyd wedi bod yn daer ei neges ynghylch y rheidrwydd i weithwyr blynyddoedd cynnar ymroi i'w datblygiad eu hunain a hynny drwy weld astudiaeth a dysg fel ymrwymiad gydol oes. Mae ei hymroddiad i broffesiynoli'r maes wedi bod yn dra arwyddocaol. Katz, yn anad neb, sydd wedi pwysleisio pwysigrwydd anian (*dispositions*) plentyn i ddysgu fel allwedd i ddysgu llwyddiannus. Yn dilyn ymweliad â Reggio Emilia ym 1991, mae Katz wedi bod yn lladmeredd huawdl a brwd o blaid yr ymagwedd hon at ddysgu plant ifainc. Mae hi wedi ysgrifennu'n helaeth ar destunau Reggio megis dogfennu a chreadigedd. Roedd Lillian Katz yn un o sylfaenwyr yr ERIC Clearinghouse on Elementary and Early Childhood Education (ERIC/EECE) sydd, erbyn hyn, yn un o adnoddau ar-lein pwysicaf i'r rhai hynny sy'n ymwneud o ddifrif ag addysg blynyddoedd cynnar (www.ericdigests.org/).

Athro addysg blynyddoedd cynnar ym Mhrifysgol Melbourne yw **Glenda MacNaughton**, ac mae hi yn ysgwyd y maes gyda'i chwestiynau radical ynghylch natur grym mewn darpariaeth i blant ifainc. Yn drwm dan ddylanwad athroniaeth ôl-strwythurol Foucault, yr athronydd o Ffrainc, mae hi'n mynd â'r maes yn ôl at y cychwyn fel petai gan edrych ar y plentyn yn ei gyd-destun, yn ei deulu, yn ei ddiwylliant. Ei diddordebau mawr ymchwil hi yw dealltwriaeth plant o gydraddoldeb a thegwch, o amrywiaeth ac ymwneud rhieni â darpariaeth i'w plant.

Mae hi wedi datblygu'r astudiaeth achos ymhellach fel dull ymchwil ac mae hi'n ysgogi ymchwil ymarferol a pherthnasol cyffrous iawn sy'n edrych, ar y cyd â phlant a'u teuluoedd brodorol yn Awstralia, ar eu profiadau. Ceir yn ei gwaith gofnod o brosiectau sy'n ymwneud â chyd-adeiladu storïau, er enghraifft astudiaeth adfyfyriol Diana Hetherich ar ei defnydd o ddoliau i herio'r hyn a elwir yn Agwedd Twristiaid (Bredekamp a Copple 1997:131) at ddysgu plant am ddiwylliannau eraill. Dyma'r agwedd at aml-ddiwylliannedd sy'n credu bod dolis duon, coginio reis, a bocs o saris yn gyfystyr â deall a chynnwys diwylliannau gwahanol. Yn y math o waith mae Hetherich yn adrodd amdano, mae partneriaeth rymus rhwng yr athro, y teulu, y plant, a'r gymdeithas ehangach gan ofyn i'r athro fyfyrion ddwfn ar ei rôl yn hyrwyddo dysgu plant (MacNaughton 2003: 315).

Bu rôl **Carla Rinaldi** yn allweddol yn bennaf fel dehonglydd a hyrwyddwr gweledigaeth Loris Malaguzzi, sef sylfaenydd y drefn addysg blynyddoedd cynnar enwog yn Reggio Emilia yng ngogledd yr Eidal. Wrth drafod gwaith Rinaldi a Reggio Emilia, dywed Moss (2005) mewn beirniadaeth lem ar ein harferion Anglo-Americanaidd ni:

Caiff llawer o waith blynyddoedd cynnar yn y byd Saesneg, yn cynnwys Prydain, ei ddominyddu gan un gred ganolog: bod modd ac y dylid adnabod set bendant a diamod o ganlyniadau ar gyfer plant ifainc, y technolegau gorau er mwyn cyrraedd y canlyniadau hyn, a dulliau o asesu cyrhaeddiad plant mewn perthynas â'r canlyniadau. Caiff sicrwydd, llinoledd, gwrthrychedd, ac un ateb cywir i bob cwestiwn eu gwerthfawrogi'n fawr.

Much early childhood work in the English-speaking world, including Britain, is dominated by a central idea: that we can and should identify a definitive set of outcomes for young children, the best technologies to achieve them, and methods to assess children's attainment of these outcomes. Certainty, linearity, objectivity, and one right answer for every question are highly valued.

(Moss 2005: 26)

Mae'r gwrthwyneb yn wir i Rinaldi ac yn nhraddodiad Reggio Emilia. Nid rhywbeth wedi'i sefydlu yw cwricwlwm ond, yn hytrach, rhywbeth sy'n esblygu wrth i oedolion a phlant gyd-adeiladu gwybodaeth ac ymestyn eu dysgu. Gelwir y broses hon yn gwricwlwm esblygol (*emergent curriculum*). Mae hi'n esbonio fel hyn:

Mae'r athrawon yn gosod amcanion addysgol cyffredinol, ond nid ydyn nhw'n llunio nodau penodol...o flaen llaw. Yn hytrach, maen nhw'n llunio rhagdybiaethau ynghylch yr hyn a fedr ddigwydd ar sail eu dealltwriaeth o'r plant ac o brofiadau blaenorol. Ynghyd â'r rhagdybiaethau hyn, byddan nhw'n llunio amcanion sy'n hyblyg ac sy'n addasu i anghenion a diddordebau'r plant.

The teachers lay out general educational objectives, but do not formulate the specific goals ...in advance. They formulate instead hypotheses of what could happen on the basis of their knowledge of the children and of previous experiences. Along with these hypotheses, they formulate objectives that are flexible and adapt to the needs and interests of the children.

(Rinaldi 1993: 102)

Bu Rinaldi yn allweddol yn datblygu a lledaenu, i wledydd eraill, y dull arbennig sydd i'w weld yn ysgolion Reggio Emilia o gofnodi dysgu plant. Defnyddir llais y plentyn, ffordd y plentyn o gyfathrebu, i gofnodi ei ddysgu a bydd y ddogfennaeth hon (yn dapiau sain, yn sylwadau ar bapur wedi'u nodi gan oedolyn, ffotograffau, clipiau fideo) yn cael eu

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau ddefnyddio dro ar ôl tro i drafod ei ddysgu gyda'r plentyn ei hun. Nid yw Carla Rinaldi a selogion Reggio Emilia yn cymeradwyo dull y rhestr wirio a thicio blwch i gofnodi cynnydd mewn dysgu plentyn.

Ymestynnwyd syniadau ac arferion Reggio Emilia i Seland Newydd gan ddylanwadu'n fawr ar y rhai a fu'n datblygu Te Whāriki, sef cwricwlwm blynyddoedd cynnar blaengar y wlad honno. Dwy a fu'n allweddol yn hyn yw **Margaret Carr** a **Helen May**. Cafwyd ganddyn nhw hefyd, yn dilyn gweledigaeth Rinaldi a Reggio Emilia, fframwaith hynod ar gyfer cynllunio ac asesu dysgu plant ifainc, sef Storïau Ddysgu (*Learning Stories*). Arsylwadau naratif yw'r rhain sy'n dogfennu dysgu'r plentyn mewn mwy o ddyfnder na thrwy arsylwad unigol.

Gall Storïau Dysgu ddal cymhlethdod dysgu a datblygiad y plentyn...integreiddio'r cymdeithasol gyda'r deallusol a'r affeithiol...a chynnwys llais y plentyn.

Learning stories can capture the complexity of the child's learning and development...integrate the social with the cognitive and the affective..and incorporate the child's voice.

(Carr 2001: 95)

Mae ymchwil **Helen Penn** o Brifysgol Llundain wedi amlygu gwahaniaethau mawr rhwng plentynod mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn materion megis cyfiawnder cymdeithasol, hawliau plant, tlodi, globaleiddio, anghyfartaledd ac annhegwch a hynny mewn perthynas â darpariaeth i blant a'u profiadau nhw o blentynod. Ceir beirniadaeth heriol a difyr yn ei dadansoddiadau o fframweithiau ymestyn cymorth i'r Trydydd Byd (neu Byd y Gogledd a Byd y De) ac o gyfraniad yr asiantaethau mawr megis Banc y Byd. Dywed, er enghraifft, parthed yr etifeddiaeth drefedigaethol:

Mae systemau addysg yn parhau i ymdebygu i'r hyn a sefydlwyd gan eu gweinyddwyr trefedigaethol...yn Swaziland, er enghraifft, gallai'r canllawiau a ddefnyddir i gofrestru meithrinfeydd fod wedi dod yn syth o lawlyfr awdurdod lleol yn Lloegr yn y 1950au - ac mae'n debyg mai dyna'r gwir!

Education systems still bear the marks of their colonial administrators.....for instance, in Swaziland, the guidelines still in place for the registration of nurseries might have come out of – and probably did – an English local authority handbook from the 1950s!

(Penn, 2005: 69)

Mae ei sylwadau ar *the dominance of English* yn ddiddorol i ni yng Nghymru:

Oherwydd yr Unol Daleithiau, mae'r Saesneg wedi dod yn iaith globaleiddio. Mae bron pob iaith dan anfantais o'i chymharu â'r Saesneg. Erbyn hyn, dyma iaith masnach, diplomyddiaeth, cymorth, technoleg ac academia (gwybodaeth). Mae hi wedi cael ei galw'n iaith 'sy'n lladd' gan fod yr holl ieithoedd eraill yn ddarostyngedig iddi. Canlyniad hyn, i'r rhai sy'n byw yn y De, yw bod rhaid iddyn nhw gyfathrebu yn eu hail neu eu trydedd iaith.

Because of the USA, English has become the language of globalization. Almost all other languages are at a disadvantage compared with English. It is now the language of trade, diplomacy, aid, technology and academia (knowledge). It has been called a 'killer' language because all other languages are subordinate to it. This also has repercussions for those in the South whose communications must always be through a second or third language.

(Penn, 2005:11)

Gwendid yn ein golwg ni ar ddatblygiad plant yw ei fod wedi ei gyfyngu cymaint i'r profiad Ewropeaidd ac Americanaidd. Mae traddodiadau eraill sy'n dechrau hawlio llais ehangach: yr hyn a elwir yn ddisgwrs ôl-drefedigaethol. Daw llais brodorion gogledd America (yr Unol Daleithiau a Chanada) â safbwynt arall ac mae gwaith diddorol iawn yn dod o brofiad pobloedd y Cefnfor Tawel (Pacifica) sydd â ffordd arall o edrych ar ddysgu. Er nad plant ifainc yw ei phrif ddiddordeb, mae **Linda Tuhiwai Smith**, academydd ym maes ymchwil addysg sy'n falch o'i threftadaeth Māori, yn herio ffiniau traddodiadol Ewropeaidd o ymchwil gan fynnu bod gan y llais brodorol ei hygredd cyfreithlon ei hun. Mae hi'n cyfeirio at epistemologau brodorol (*indigenous epistemologies*) (Smith, 1999) sef yr arfer o herio'r paradeims gorllewinol (er enghraifft, llythrennedd yn gysylltiedig â systemau'r wyddor - gwyddor Ewropeaidd neu beidio). Mae'r syniadau hyn, yn eu hanfod yn wleidyddol iawn gan eu bod yn adwaith i ormes hanesyddol a threfedigaethol ar bobloedd frodorol yn Awstralia, America, ac Affrica. Cysylltir y disgwrs hwn â'r ymgyrch am hunaniaeth, annibyniaeth, a chyfiawnder cymdeithasol, diwylliannol, ac ieithyddol.

I gloi

Mae perygl mewn gweld bod traddodiad a damcaniaethau blynyddoedd cynnar yn cael eu dominyddu gan unigolion. Er bod yr holl bobl hyn yn allweddol a'u cyfraniad a'u dylanwad yn fawr, dylid cofio hefyd y fyddin gref o'r hyn a alwodd y bardd mawr Cymraeg Waldo Williams yn 'gwmwl tystion' sef y rhai hynny sydd wedi bod o'n blaenau

Siân Wyn Siencyn: Ymarfer, darpariaeth a mythau ni, yn cynnal y weledigaeth a'r gwerthoedd rydym ni yn eu harddel, beth bynnag y bônt. I ni sy'n credu bod plant ifainc yn ddifyr, yn meddu ar sgiliau rhyfeddol, yn ddeallusol fedrus a mentrus, ac yn ddysgwyr o gryn fwriad a dycnwch, mae ein diolch ni i'r 'cwmwl tystion' o fenywod dirifedi (prin iawn yw'r dynion a dyna'r sefyllfa o hyd) sydd, dros y degawdau, wedi ymroi i gynnal cylchoedd meithrin mewn festrïoedd capel a neuaddau pentref ar hyd ac ar led Cymru a hynny am ychydig iawn o dâl - os tâl o gwbl. Yn y traddodiad hwnnw, dros y blynyddoedd, bu gwireddu ac uno dwy genhadaeth arbennig, sef gofalu am blant ac eiriol dros eu lles ac, ar yr un pryd, hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg. Dyna ein cyfraniad unigryw ni, y Cymry, i barhad y tradoddiad

Rhai materion i'w hystyried

- Pam nad oes mwy o ddynion i'w gweld mewn gwasanaethau i blant ifainc yng Nghymru? Ydy'r un duedd yn wir am wledydd eraill? Ymchwiliwch i rôl dynion mewn gwasanaethau tebyg yng ngwledydd Sgandinafia.
- Beth yw'r safbwynt ffeministaidd tuag at ddatblygiad plant?
- Oes gweledigaeth a phrofiad unigryw Cymraeg a Chymreig mewn perthynas â phlant ifainc a darpariaeth blynyddoedd cynnar?
- Beth yw'r profiadau rydych chi'n eu cofio o'ch blynyddoedd cynnar: mewn cylch meithrin neu mewn dosbarth derbyn? Sut mae'r rhain yn wahanol i'r hyn mae plant ifainc heddiw yn cael?